OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1647

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005

## RHAN 2

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Deunyddiau ac Eitemau

**Gorfodi Rheoliad 1935/2004**

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 27 (trefniadau trosiannol), bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rheoliad 1935/2004 yn euog o dramgwydd —

(a) Erthygl 3 (gofynion cyffredinol);

(b) Erthygl 4 (gofynion penodedig ar gyfer deunyddiau ac eitemau adweithiol a deallus);

(c) Erthygl 11(4) a (5) (darpariaethau sy'n ymwneud ag awdurdodiad y Gymuned);

(ch) Erthygl 15(1), (2), (3), (4), (7) ac (8) (labelu);

(d) Erthygl 16(1) (datganiad o gydymffurfio);

(dd) ar neu ar ôl 27 Hydref 2006, Erthygl 17(2) (gallu olrhain).

**Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1935/2004**

**5.** Dynodir y cyrff canlynol fel awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau Rheoliad 1935/2004 fel a bennir isod —

(a) o ran Eitemau 9 a 13, yr Asiantaeth;

(b) o ran Eitemau 16(1) a 17(2), yr Asiantaeth a'r awdurdod sy'n gyfrifol am orfodi yn unol â rheoliad 12(1).